



**YSGOL PENCAE**  
Highfields, Gilian Road  
Llandaf, Caerdydd  
CF5 2QA  
Ffôn: 029 20563851  
E-bost: [ysgolpencae@cardiff.gov.uk](mailto:ysgolpencae@cardiff.gov.uk)



[@ysgolpencae](https://twitter.com/ysgolpencae)  
[Dilynwch ni ar Trydar](#)  
[Follow us on Twitter](#)

**Cylchlythyr Rhif 03/ Newsletter No 03**  
**23.09.2016**

Annwyl Riant neu Warcheidwad / *Dear Parent or Guardian*

### **Diogelwch ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol/Safety at the beginning and end of the school day**

Mae'n ofynnol fod pob disgybl yn dod lawr **i'r buarth isaf** yn ddiymdroi pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol rhwng 8.45am a 8.55am ynghyd â gadael y safle am 3.30pm **heb ymwled â Pharc Pencae.** Nid wyf am weld damwain yn digwydd i unrhyw ddisgybl yn yr ysgol a phlant cyn oedran ysgol, yn enwedig gyda thrafnidiaeth staff yr ysgol. Cofiwch hefyd ddefnyddio'r gât y cerddwyr ac nid y gâtiau dwbl mawr./*It's essential that all pupils come **down to the bottom yard** immediately when they arrive school between 8.45am and 8.55am and to leave the school site at 3.30pm **without visiting Parc Pencae.** I do not want to witness an accident with the pupils and pre age school children, especially with the school's staff transport. Please also remember to use the pedestrian gate and not the large double gates.*

Cofiwch hefyd barcio tu allan i safle'r ysgol am 4.30pm pan rydych yn casglu eich plentyn o weithgareddau allgyrsiol yr ysgol/*Please remember to park outside the school premises at 4.30pm when collecting your child from the school's extra-curricular activities.*

Diolch o flaen llaw am eich cydweithrediad/*Thank you in advance for your cooperation.*

### **Cyflwyniad i Rieni Blwyddyn 6 / Year 6 Parent's Presentation**

Llun/Monday - 03.10.16

am/at 5.00pm – 6.00pm

### **Nosweithiau Rhieni / Parents Evening**

Sylwer ar y dyddiadau / *Please make note of the dates:*

**Mawrth/Tuesday (11.10.16) Iau/Thursday (13.10.16)**

Addaswyd y dyddiadau oherwydd fod dau aelod o staff yn mynychu hyfforddiant Cymorth Cyntaf ar ddydd Mercher, 12.10.16/*The amended dates are as a result of two members of staff attending First Aid Training on Wednesday, 12.10.16.*

Byddwch yn gallu dewis eich amser ar y naill ddiwrnod neu'r llall trwy gyfrwng y system Teacher2Parents newydd – mwy o fanylion i ddilyn/*You will be able to chose your specific time on either of these dates via the new Teaching2Parents system – more details to follow.*

## **Drysau Agored Llandaf / Llandaf Open Doors**

Diolch i bawb a ddaeth i'r achlysur yn yr ysgol fel rhan o'r cynllun Drysau Agored. Cyfrannwyd £55 tuag at yr elusen MacMillan/*Thank you to everyone who attended the Open Door event at the school. £55 was contributed to MacMillan.*

## **Gwasanaeth Cynhaeaf: dydd Mawrth, 04 Hydref / Harvest Service: Tuesday, 04 October**

Cynhelir y gwasanaeth cynhaeaf yn yr ysgol i'r disgyblion yn unig. Bydd Mr Adam Coleman o'r elusen Enfys Gobaith, elusen sy'n gweithio er budd y digartref a'r anghenus yng Nghaerdydd, yn annerch y disgyblion. Er mwyn cefnogi'r elusen a fyddoch cystal â chyfrannu'n wirfoddol yr eitemau canlynol: tuniau o gig neu bysgod, olew coginio, siwgwr, bagiau te, coffi parod, reis, pasta, llaeth oes hir, sgwash. Bydd y disgyblion yn cyflwyno eu cyfraniad yn ystod y gwasanaeth/*The harvest service will be held in school for the pupils only. Mr Adam Coleman from the charity Rainbow of Hope, a charity caring for the homeless and those in need in Cardiff, will address the pupils. In order to support the charity, would you be so good as to make a voluntary contribution of one or more of the following items: tinned fish or meat, cooking oil, sugar, tea bags, instant coffee, rice, pasta, long life milk, squash. The pupils will present their contributions during the service.*

## **Lluniau unigol neu deulu: Dydd Mawrth, 11 Hydref Individual or sibling photographs: Tuesday, 11 October**

Mae cwmni Colorfoto yn dod i'r ysgol ar 11 Hydref i dynnu lluniau pob plentyn yn unigol. Nodwch isod os hoffech lun gyda brawd/chwaer/teulu. Bydd y ffotograffydd yn barod i dynnu lluniau'r plant cyn oedran ysgol am 8.30 y bore. Mae'n bwysig bod eich plentyn yn gwisgo'r wisg ysgol gywir/*The Colorfoto company is coming to school on 11 October to take an individual photograph of each child. Note below if you would like a photograph with a brother/sister/sibling. The photographer will take photographs of pre-school children at 8.30 am. It is important for your child to wear correct school uniform.*

## **Gwasanaeth Agored / Open Service:**

**Heddiw am 2.50pm / Today at 2.50pm**

Cyfle i'r disgyblion ddathlu eu doniau trwy ddangos tystysgrifau, medalau neu dlysau. Mae croeso i chi fel rhieni ymuno â ni/*An opportunity for your children to celebrate their talents by showing their certificates, medals or trophies. You are welcome to join us.*

## **Clybiau Ar Ôl Ysgol / After School Clubs**

### **Wythnos yn dechrau/Week beginning – 26.09.16:**

#### **Côr / Choir**

Bl/Yr 4 – 6:

15.30pm – 16.30pm

Dydd Llun, 26 Medi / Monday, 26 September

### **Clwb Dawns / Dance Club (Cwmni Dance Fit Company)**

Bl/Yr 5 – 6: 15.30pm – 16.30pm  
Dydd Mawrth, 27 Medi / *Tuesday, 27 September*

### **Clwb Chwaraeon / Sports Club**

Bl/Yr 3 – 6: 15.30pm – 16.30pm  
Dydd Mawrth, 28 Medi / *Tuesday, 28 September*

### **Clwb Jiwdo / Judo Club**

15.30pm – 16.30pm  
Dydd Mercher, 28 Medi / *Wednesday, 28 September*

### **Clwb Dawnsio Gwerin / Folk Dancing Club**

Bl/Yr 3 & 4: 15.30pm – 16.30pm  
Dydd Iau, 29 Medi / *Thursday, 29 September*

### **Clwb Hwb (Arweinwyr Digidol)/Digital Leaders)**

Bl/Yr 3 - 6 15.30pm – 16.30pm  
(Disgyblion penodol/*Specific pupils*) Dydd Iau, 29 Medi / *Thursday, 29 September*

### **Dyddiadau pwysig / Important dates**

11.10: Lluniau Unigol / *Individual Photos*

11 & 13.10: Nosweithiau rhieni i Fl 1 i 6 / *Parents' evenings for Yrs 1 to 6*

Bydd cyfle i rieni Dosbarth Derbyn gwrdd â Miss A Burnell ar ôl hanner tymor  
*Reception Class parents will be able to meet with Miss A Burnell after half term*

01 & 02.12: (9.15 – 10.15am) Sioe Nadolig y Cyfnod Sylfaen / *Foundation Phase Christmas Show*

14.12: Gwasanaeth Nadolig yr Adran Iau, **10.30am**. \*Mwy o fanylion i ddilyn  
*Juniors Christmas Service, 10.30am. \*More information to follow*

Edrychaf ymlaen at gydweithio gyda chi unwaith eto er lles ac addysg eich plant/  
*I look forward to working with you all once again for the benefit and education of your children.*

Diolch yn fawr,

R R Thomas  
Pennaeth

**Llun / Photograph****Dydd Mawrth/Tuesday, 11.10.16**

Nodwch enwau'r plant i gael llun gyda'i gilydd

*Note the names of the children who will have a group photograph*

Enw/Name	Dosbarth/Class